# CYNGOR CYMUNED BUAN

Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor, gynhaliwyd nos Iau, 09 Chwefror, 2023
Yn Tu Hwnt i'r Afon, Rhydyclafdy

Presennol:

Cynghorwyr:

Wynne Davies
Catherine Hughes
Rhys Jones
Tesni Jones
Gareth Roberts

Anwen Davies – Cynghorydd Sirol

Nerys Williams - Clerc

1. Ymddiheuriadau –

Cafwyd ymddiheuriad gan:

Nia W. Jones
Einir Lewis
Phil Roberts
Dafydd Ll. Williams
Hughie Williams

2. Cofnodion cyfarfod 12 Ionawr, 2023

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cynghorydd Rhys Jones (Is-gadeirydd). Cadarnhawyd Cofnodion 12 Ionawr, 2023 yn gywir gan y Cynghorydd Tesni W. Jones ac fe eiliwyd gan y Cynghorydd Wynne Davies.

3. Materion yn codi o'r cofnodion:-

Materion Priffyrdd – Cafwyd e-bost yn ymateb i'r cwynion a godwyd ym mis Ionawr ac mi roedd y gwaith un ai wedi cael ei wneud neu ar fin gael ei wneud pan fo cyllid yn caniatau. Diolchwyd i'r adrannau perthnasol.

4. Materion Cynllunio –

DIM

## 5. Datgan Diddordeb

DIM.

## 6. Ymatebion i ohebiaeth

Derbyniwyd e-bost oddi wrth Gyngor Cymuned Llanbedrog yn gofyn inni eu cefnogi unwaith yn rhagor ynglŷn a'r llifogydd ar yr A499 - Pwllheli i Llanbedrog.

Y Clerc i anfon llythyr at Mark Drakeford, Prif Weinidog Cymru; Julie James, Y Gweinidog Newydd Hinsawdd; Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd; Dafydd Wyn Williams, Pennaeth Adran Amgylchedd, Cyngor Gwynedd; Steffan Jones, Pennaeth Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd; a Clare Pillman, Prif Weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru yn mynegi ein pryderon a'n anfodlonrwydd ynglŷn â'r sefyllfa ddifrifol sydd yn wynebu pobl Pen Llŷn pan fydd y darn yma o'r lôn o dan ddŵr.

## 7. Materion Ariannol

Cysoniad banc o 4 Ionawr, 2023 i 3 Chwefror, 2023 heb gyrraedd erbyn y cyfarfod heno. Y Clerc i anfon copi ar e-bost i'r Cynghorwyr cyn gynted ag y'i derbynnir.

Cafodd y sieciau isod eu harwyddo gan ddau Gynghorydd yn ystod y cyfarfod;-

| | | |
|---|---|---|
| Bartle St. Tudwals (Twnti) | £20.00 | Siec Rhif 200704 |
| Cyllid a Thollau (Mis 11) | £27.80 | Siec Rhif 200705 |
| Nerys Williams (Mis 11) | £111.99 | Siec Rhif 200706 |
| Gethin Scott (Trydanwr) | £102.60 | Siec Rhif 200707 |
| Nerys Williams (Stampiau) | £10.88 | Siec Rhif 200708 |
| Theatr Bara Caws | £100.00 | Siec Rhif 200709 |

Cafwyd cais am gyfraniad ariannol gan Theatr Bara Caws a phederfynwyd cyfrannu £100.00 tuag eu coffrau.

Cais hefyd gan Glwb Ffermwyr Ifanc Godre'r Eifl – penderfynwyd peidio cyfrannu am eleni oherwydd eu bod wedi cael cyfraniad llynedd.

Cafwyd cais gan un o'r Cynghorwyr i drafod ceisiadau ariannol yn gyffredinol yn y cyfarfod nesaf.

## 8. Unrhyw fater arall

**Tendro ar gyfer Torri Gwellt a chlirio mynwentydd am y flwyddyn 2023 / 2024**

Mae copi o wahoddiad i dendro ar gyfer Mynwentydd Llanfihangel, Eglwys Boduan a Cae Chwarae Rhydyclafdy wedi eu gosod i fyny ar yr hysbysfyrddau yn Rhydyclafdy ac yng Ngheidio gan wahodd unrhyw un sydd â diddordeb yn y gwaith i yrru prisiau i mewn i'r Clerc erbyn hanner dydd, Dydd Mercher, 8 Mawrth, 2023.

Er gwybodaeth adroddodd y Cynghorydd Sirol bod sefyllfa bryderus iawn wedi codi yn ddiweddar gan i aelod o'r Gwasanaeth Gofal orfod trafeilio ar draws gwlad o Efailnewydd i Lanbedrog i ateb i argyfwng gan fod arwydd Dim Mynediad yn ben lôn Llwyn Beuno oherwydd dŵr ar y ffordd. Mae ffarmwr lleol yn fodlon

gweithio gyda Cyngor Gwynedd i ddatrys y broblem ar y lôn ger Rhyllech ond nid oes dim wedi digwydd ar ran y Cyngor hyd yn hyn. Y Cynghorydd Anwen Davies am fynd ynghylch â'r mater.

Penderfynwyd hefyd anfon at Cyngor Gwynedd i ofyn am arwydd **Araf – Plant yn Chwarae** i'w osod cyn cyrraedd pentref Rhydyclafdy o'r 3 ochr gan fod pryderon o hyd am or-yrru drwy'r ardal.

**Lôn Cefn Mine** – Er bod Cyngor Gwynedd wedi bod yn trwsio tyllau yn y mannau pasio ar hyd y lôn yma penderfynwyd anfon eto i ofyn os fuasai posib gwneud yn siŵr bod y tyllau i gyd wedi cael eu cau cyn yr Eisteddfod ym mis Awst.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.15 p.m.

## 12. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf -

Nos Iau, 9 Mawrth, 2023 am 7.30 p.m. yn Tu Hwnt i'r Afon, Rhydyclafdy.